



Cronfa Gymunedol Fferm Wynt
PEN Y CYMOEDD
Wind Farm Community Fund CIC

Polisi Diogelu Data

Cwmpas y polisi	Cymwys i holl weithgareddau PyC CIC
Dyddiad Cymeradwyo	22.5.18 V2 (cymeradwywyd F1 17.2.17)
Dyddiad adolygu	Mehefin 2020
1. Cyflwyniad	
1.1 Diben y polisi	Mae'r Polisi hwn yn sicrhau bod Cronfa Gymunedol CIC Fferm Wynt Pen y Cymoedd yn casglu ac yn prosesu data: - yn gyfreithlon, yn deg ac mewn modd dryloyw mewn perthynas ag unigolion – gan gael eu caniatâd penodol am yr holl ddata personol a gaiff eu storio a'u defnyddio - at ddibenion penodedig, penodol a dilyn yn unig - sy'n ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sydd ei angen at ddibenion gweithgareddau busnes CIC - sy'n gywir ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd - mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch priodol o'r data personol, Mae'r CIC wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae'n darparu hyfforddiant a chefnogaeth i staff sy'n ymdrin â data personol, fel y gallant weithredu'n hyderus ac yn gyson. Dylid darllen y polisi hwn mewn cysylltiad â Pholisi TGCh CIC a'i Bolisi Cadw a Gwaredu Dogfennau.
1.2 Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)	Daeth cyfraith GDPR Ewrop gyfan i rym yn lle Deddf Diogelu Data 1998 ym mis Mai 2018. Mae'n nodi'r gofynion ar gyfer sut y dylai sefydliadau gasglu, trin a storio gwybodaeth bersonol, pa un a yw hynny'n electronig neu ar bapur neu unrhyw ffurf arall. Mae'r gofynion yn gymwys i CIC PyC fel Rheolwr Data ac i Broseswyr Data y mae gennym gcontractau gyda hwy.
1.3 Diffiniadau	Data Personol: pob gwybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unigolyn y gellir ei adnabod. Mae hyn yn cynnwys enwau, cyfeiridau post ac e-bost, delweddau, rhifau ffôn; dyddiadau geni; cyfrif banc; trwydded yrru a manylion pasbort. Rheolwr Data: Bwrdd CIC. Y Bwrdd sy'n penderfynu pam a sut y caiff data personol eu prosesu. Prosesydd Data: unrhyw berson (ac eithrio un o weithwyr CIC) sy'n prosesu data personol ar ran CIC. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, y contractwyr sy'n ymgymryd â gwaith Monitro a Gwerthuso CIC, datblygu cronfa ddata Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid/Grantiau, galluogi gwiriadau atal gwyngalchu arian, darparwyr TGCh. Prosesu: unrhyw weithgarwch a wneir ar ddata personol. Torri Data Personol: Torri diogelwch, gan arwain at ddinistrio, colli ac addasu data personol neu eu datgelu'n ddamweiniol, neu gael gafael ar ddata personol a gaiff eu trosglwyddo, eu storio neu eu prosesu fel arall.
1.4 Egwyddorion Diogelu Data	Mae'n rhaid i ddata personol: - gael eu prosesu a'u storio'n deg ac yn gyfreithlon. - gael eu prosesu at ddibenion penodedig a chyfreithlon yn unig. - fod yn ddigonol ac yn berthnasol ac ni ddylent fod yn ormodol at y dibenion hynny.

	- fod yn gywir a chael eu diweddaru'n rheolaidd – mae gan ddeiliad y data yr hawl i ddata personol anghywir gael ei gywiro neu ei ddinistrio os yw'r wybodaeth bersonol yn anghywir o ran unrhyw fater o ffaith. - gael eu cadw am ddim mwy na'r cyfnod sydd ei angen at ddibenion eu prosesu. - gael eu prosesu yn unol â hawliau unigolion – mae hyn yn cynnwys yr hawl i gael ei hysbysu o'r holl wybodaeth sydd ar gael am yr unigolyn, atal prosesu gwybodaeth beresonol at ddibenion marchnata, a'r hawl i iawndal os y gall brofi niwed oherwydd nad yw Rheolwr y Data wedi cydymffurfio. - gael eu diogelu yn erbyn cael eu colli, eu dinistrio neu eu niweidio'n ddamweiniol ac yn erbyn cael eu prosesu heb awdurdod ac yn erbyn eu prosesu'n anghyfreithlon. - beidio â chael eu trosglwyddo i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd – yr UE a Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein – nad oes ganddynt amddiffyniad digonol ar gyfer gwybodaeth bersonol unigolion.
2. Casglu a Chadw Data	
2.1 Llif Data	Mae manylion y mathau o ddata a gesglir, pam mae eu hangen a pha mor hir y cânt eu cadw wedi'u rhestru yn <i>Atodiad 1</i> . Nid yw'r CIC yn casglu unrhyw ddata personol sensitif ¹ .
2.2 Seiliau Cyfreithiol: Cydsyniad, Contract, Buddiannau Dilys	a. CYDSYNIAD: Dim ond â chydsyniad llawn a phenodol y bydd PyC CIC yn prosesu data. Cronfa Ddata Cysylltiadau Mae pobl ar ein rhestr bostio gyffredinol wedi rhoi eu cydsyniad i dderbyn diweddariadau cyffredinol. Mae eu henwau, teitlau swyddi a sefydliad gennym (os ydynt yn cynrychioli sefydliad) yn ogystal â chyfeiriadau post ac e-bost a rhifau ffôn. Os nad yw rhywun ar y rhestr am glywed gennym, gallant ddweud hynny wrthym unrhyw bryd. Cysylltiadau Newydd Pan fyddwn yn cwrdd ag ymgeiswyr posibl a phobl sydd â diddordeb, gofynnir iddynt lenwi ffurflen syml yn rhoi eu cydsyniad cyn y caiff eu manylion eu hychwanegu at y gronfa ddata cysylltiadau. Ceisiadau Grant a Benthyciadau O'r dechrau, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarllen a chadarnhau eu bod yn derbyn y Datganiad Preifatrwydd yn <i>Atodiad 2</i>, a Pholisi Diogelu Data CIC, cyn cyflwyno cynigion. Byddwn yn casglu yr un wybodaeth bersonol sylfaenol. Efallai y byddwn yn rhannu peth o'r wybodaeth, neu'r holl wybodaeth, ag unigolion a sefydliadau rydym yn ymgynghori â hwy wrth asesu ceisiadau. Gallai'r sefydliadau hyn gynnwys y rhai sy'n cynnig cymorth a chynghor, awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethol. Rydym yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data. Caiff ymgeiswyr wybod os ydynt yn cynnwys gwybodaeth bersonol am drydydd parti (e.e. partneriaid darparu) fel rhan o'u ceisiadau, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod ganddynt gydsyniad. b. CONTRACT: prosesu sy'n angenrheidiol i reoli'r contract dyfarnu c. BUDDIANNAU DILYS: mae angen y prosesu ar gyfer CIC PyC, Vattenfall a buddiannau dilys Gweinidogion Cymru.
2.3 Cyfnod Cadw	Byddwn yn cadw manylion ceisiadau llwyddiannus ac aflwyddiannus tan 2041 – dros gyfnod y Gronfa. Mae hyn yn unol â chontract CIC gyda'n ariannydd, sef Vattenfall, y cwmni fferm wynt, a chontract Vattenfall gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

¹ Categoriâu data personol sensitif: 1. Tarddiad hil neu ethnig 2. Barn wleidyddol 3. Cred grefyddol neu greddoau o farn tebyg eu natur; 4. Aelodaeth o undeb llafur; 5. Iechyd corfforol neu iechyd meddwl; 6. Rhywioldeb; 7. Cyflawni neu honiad o gyflawni trosedd; 8. Data Biometrig a Genetig

3. Cyfrifoldebau	
3.1 Cyfarwyddwyr	Cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i oblygiadau cyfreithiol, gyda chefnogaeth Hyrwyddwr Diogelu Data'r Bwrdd.
3.2 Swyddog Diogelu Data	Y Cyfarwyddwr Gweithredol yw'r Swyddog Diogelu Data. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys: • Briffio'r bwrdd ar gyfrifoldebau Diogelu Data • Adolygu Diogelu Data a pholisïau cysylltiedig • Cynghori staff ynghylch materion Diogelu Data • Sicrhau bod cyflwyniad a hyfforddiant Diogelu Data yn digwydd • Sicrhau cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth • Ymdrin â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth • Cymeradwyo datgeliadau anaferol neu ddadleuol o ddata personol • Sicrhau bod yr holl Broseswyr Data yn cydymffurfio â GDPR cyn cytuno ar gontractau • Cymeradwyo pob datganiad Diogelu Data sy'n gysylltiedig â gohebiaeth • Sicrhau bod mentrau marchnata yn dilyn egwyddorion diogelu data
3.3 Staff a Chyfarwyddwyr	Mae'n rhaid i'r holl staff a Chyfarwyddwyr ddarllen, deall a dilyn yr holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r data personol y gallent ymdrin â hwy yn eu gwaith.
3.4 Hyfforddiant	Bydd staff ac aelodau'r Bwrdd yn cael hyfforddiant Diogelu Data bob dwy flynedd ac yn tanysgrifio i ddiweddariadau arfer gorau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
4. Cyfathrebu	
4.1 Cyfathrebu â Gwrthrych Data	Caiff Gwrthrych Data eu hysbysu o gyfrinachedd drwy ddatganiadau Diogelu Data ar ein ffurflenni cais, fel eu bod mor ymwybodol â phosibl o'r ffordd rydym yn defnyddio'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanynt.
4.2 Awdurdodi datgeliadau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaswm pam y caiff y data eu cadw	Mae'r rhain yn rhannu'n ddau brif gategori: y rhai sy'n debygol o fod yn y dechrau neu buddiadau gwrthrych y Data, a'r rhai a gaiff eu gwneud yn ystod ymchwiliadau swyddogol (e.e. Cyllid a Thollau EM neu'r Heddlu). O ran y cyntaf (fel cais cyfeirnod ariannol gan fanc), cydsyniad gan Wrthrych y Data yw'r awdurdod arferol tebygol. Dylid recordio'r cydsyniad hwn. O ran yr ail, efallai ei bod yn briodol i beidio â dweud wrth Wrthrych y Testun. Dylid rhoi'r awdurdod gan Gadeirydd CIC.
5. Diogelwch a Storio	
5.1 Storio	• <i>Electronig</i>: cedwir data ar liniaduron wedi'u hamgryptio a chyfrineiriau'n eu diogelu ac wedi eu cefnogi gan yriant caled allanol wedi'i amgryptio a'i storio mewn cwpwrdd o dan glo. Rydym yn defnyddio dulliau storio cwmwl Office 365, sy'n cynnwys amddiffyniad gwell rhag feirysau a swyddogaeth Adfer Ffeiliau, y gellir ei ddefnyddio i adfer data a gollwyd oherwydd dileu enfawr ar ddamwain, meddalwedd wystlo, llygru ffeiliau neu unrhyw beth arall a allai fod wedi niweidio data. Mae Microsoft yn cynnwys digelu meddalwedd wystlo i One Drive, ac os oes ymosodwyr cyfer i'w canfod caiff defnyddwyr Office 365 eu hysbysu ar unwaith. Caiff negeseuon eu hamgryptio a'u diogelu. • <i>Cronfa ddata Grantiau</i> – mae gan ein darparwr achrediad Safon Diogelwch Gwybodaeth ISO 27001 ac mae'n cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data • <i>Papur</i>: caiff ceisiadau a gwybodaeth gefndirol eu cadw mewn cabinet ffeilio yn swyddfa CIC, a gaiff eu cloi pan fydd y staff i ffwrdd. Mae CIC yn defnyddio cwmni gyda Chofrestriad Ansawdd ISO 9001:2008 a BS EN 15713:2009 at ddibenion dinistrio data cyfrinachol a gwasanaethau ailgylchu. Darperir Tystysgrifau Dinistrio ar ein cyfer.
5.2 Proseswyr Data	Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Gweithredol werthuso unrhyw wasanaethau trydydd parti a gaiff eu defnyddio gan CIC a chael cadarnhad ysgrifenedig llawn a sicrwydd eu bod yn cydymffurfio â GDPR.

6. Gwrthrych a Mynediad	
6.1 Cyfrifoldeb	Mae gan unigolion yr hawl i wybod pa wybodaeth sy'n cael ei dal amdanynt. Mewn ymateb i gais dilys, bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol yn darparu copi parhaol, clir o'r holl ddata personol am wrthrych y data hynny pan gaiff y cais ei wneud. Gweithredir ar bob cais heb unrhyw oedi diangen ac ar yr hwyraf o fewn un mis o'i dderbyn. Ni chodir tâl.
6.2 Gweithdrefn ar gyfer gwneud cais	Gellir gwneud cais gwrthrych am wybodaeth ar lafar, yn ysgrifenedig neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Nid oes angen iddynt gael eu gwneud i berson penodol na phwynt cyswllt, and nid oes angen iddynt gynnwys yr ymadrodd 'cais gwrthrych am wybodaeth' neu Erthygl 15 o'r GDPR, ar yr amod ei bod yn amlwg bod yr unigolyn yn gofyn am ddata personol ei hun. Caiff unrhyw beth a allai fod yn gais gwrthrych am wybodaeth ei gydnabod o fewn 3 diwrnod gwaith.
6.3 Gweithdrefn ar gyfer rhoi caniatâd	Caiff manylion llawn yr holl geisiadau a wneir a'r ymatebion iddynt eu nodi a'u cofnodi – gan gynnwys y rhai a gaiff eu gwneud dros y ffôn neu'n bersonol. Byddwn yn sicrhau y caiff ceisiadau eu deall yn iawn er mwyn osgoi anghydfod yn ddiweddarach ynghylch sut y cawsant eu dehongli. Byddwn yn annog unigolion i gwblhau ffurflen cais gwrthrych CIC PyC ond fe eglurwn nad yw hyn yn orfodol. Caiff y wybodaeth sydd ei hangen ei darparu naill ai ar ffurf copi caled neu drwy e-bost neu fel recordiad. Os yw'n briodol, caniateir mynediad o dan oruchwyliaeth yn bersonol.
7. Adrodd a Rheoli Torri Data Personol	
7.1 Diffiniad	Torri diogelwch, gan arwain at ddinistrio, colli neu addasu data personol neu ddatgelu'n ddamweiniol, neu gael gafael ar ddata personol a gaiff eu trosglwyddo, eu storio neu eu prosesu fel arall.
7.2 Meysydd Risg	Y prif feysydd risg yw: • Torri cyfrinachedd – datgelu gwybodaeth am unigolion drwy ddiogelwch gwael neu ddatgelu gwybodaeth yn amhriodol • Niwed i unigolion neu sefydliadau drwy ddata anghywir neu annigonol • Data'n cael eu cadw ac yn cael eu defnyddio heb ganiatâd penodol Caiff y rhain i gyd eu lleddfu gan y mesurau a nodir uchod. Bydd camgymeriad dynol bob amser yn risg, a chaiff hyn ei leihau drwy gael: - Hyfforddiant a diweddariad rheolaidd - Polisi TG clir a gaiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd Gan fod data electronig CIC PyC wedi'i amgryptio, ac o ystyried yr ychydig iawn o ddata personol a gedwir, mae effaith torri unrhyw ddata yn annhebygol o fod yn sylweddol.
7.3 Cyfrifoldeb	Cyfarwyddwr Gweithredol CIC sy'n gyfrifol am yr holl hysbysiadau ynghylch toriadau, a'u rheoli. Bydd yn: - Asesu difrifoldeb ac effaith bosibl y toriad - Sefydlu pwy sydd angen cael gwybol am y toriad, a'i hysbysu o'r hyn y mae disgwyl iddynt ei wneud er mwyn cynorthwyo i gyfyngu unrhyw gamau gweithredu - Sefydlu'r hyn y gellir ei wneud i adfer unrhyw golledion a chyfyngu ar unrhyw niwed - Rhoi gwybod i'r heddlu pan fydd hynny'n briodol. - Cadw cofnodion clir o'r holl ddigwyddiadau a'r camau a gymerwyd
7.4 Gweithredu	Os yw'r toriad yn debygol o gael effeith andwyol ar ddata personol neu breifat, caiff y rhai a gaiff eu heffeithio wybod ar unwaith. Byddant yn cael: - enw a manylion cyswllt y Cyfarwyddwr Gweithredol

	- amcangyfrif o ddyddiad y toriad - crynodeb o'r digwyddiad - natur a chynnwys y data personol - yr effaith bosibl ar yr unigolyn - unrhyw fesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r toriad; a - sut y gallant liniaru unrhyw effaith andwyol bosibl.
--	--

8 Newidiadau i'r Polisi Hwn

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol. Caiff unrhyw newidiadau eu cyhoeddi'n glir ar ein gwefan a chaiff yr holl bobl y mae gennym ddata amdanynt eu hysbysu.

Atodiad 1 – Data a Gasglwyd

	Math	Data a Ddelir	Rheswm	Storio a Diogelwch	Sylwadau
1.	Cronfa Ddata Cysylltiadau	• Enw'r Ymgeisydd • Teitl y Swydd • Sefydliad • Cyfeiriad (Gartref/ Gwaith) • Cyfeiriad e-bost • Rhifau Ffôn	Diweddariad rhaglen a digwyddiadau	• Taenlen • Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid • One Drive • Cefnogi gyriant caled allanol wedi'i amgryptio	Ym mis Ebrill 2018, gofynnwyd i bob cyswllt ar y gronfa ddata gadarnhau eu bod yn fodlon aros a chael diweddariad a newyddion gan CIC, a diweddarwyd y cronfeydd data i adlewyrchu hyn. Cafodd yr holl ymatebion eu cofnodi a'u cadw. Bydd cysylltiadau yn cael eu holi eto bob dwy flynedd i gadarnhau eu bod yn parhau i aros ar y rhestr bostio. Mae'r holl negeseuon e-bost cyffredinol a gaiff eu hanfon gan CIC yn cynnwys opsiwn i ddad-danysgrifio.
2.	Ceisiadau am Grantia a Benthyciadau	• Enw'r Ymgeisydd • Teitl y Swydd • Sefydliad • Cyfeiriad (Gartref/ Gwaith) • Cyfeiriad e-bost • Rhifau Ffôn	Asesiad Grant	• Taenlen • Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid • Cabinet ffeilio wedi'i gloi • One Drive • Cefnogi gyriant caled allanol wedi'i amgryptio	Caiff manylion yr ymgeiswyr llwyddiant ac aflwyddiannus eu cadw am gyfnod y Gronfa / CIC yn gyfochrog â chontract CIC â Vattenfall a chontract Vattenfall â Gweinidogion Cymru. Caiff yr ymgeiswyr eu hysbysu o Ddatganiad Polis Diogelu Data CIC ac maent yn cydsynio'n benodol iddo cyn agor porthol ymgeisio CRM, neu pan maent yn cyflwyno cais papur.
3.	Grantïon	Fel 2 uchod – hefyd: - Dyddiad Geni ar gyfer y prif gyswllt - Manylion cyfrif banc y sefydliad / busnes	- Gwiriadau AML - Rheoli contractau grantiau - Taliadau Grantiau <i>Data sy'n ofynnol ar gyfer gwiriadau dilysu adnabod mewn cysylltiad â chontract y grant/benthyciad –</i>	• Taenlen • Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid • Cabinet ffeilio wedi'i gloi • One Drive • Cefnogi gyriant caled allanol wedi'i amgryptio	Caiff manylion ymgeiswyr llwyddiannus eu cadw am gyfnod y Gronfa / CIC yn gyfochrog â chontract CIC â chontract Vattenfall â Gweinidogion Cymru.

		- Llundain / ffilm	<i>ni chynhelir gwiriadau credyd. Dinistrir y data unwaith y bydd gwiriad dilysu wedi cael ei gynnal.</i> Adrodd a monitro'r prosiect.		Ffurflenni cydsynio model eu hangen.
--	--	--------------------	---	--	--------------------------------------

Atodiad 2 – Datganiad Preifatrwydd

Polisi Diogelu Data

Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen ac yn derbyn ein Polisi Diogelu Data a'r Datganiad Preifatrwydd isod cyn dechrau'r broses gofrestru grant. Drwy barhau, rydych yn cadarnhau eich bod yn derbyn y Polisi a'r ffyrdd y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni. Gallwch ddarllen y polisi llawn yma. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau o gwbl amdano, cofiwch gysylltu â ni.

Diolch.

Datganiad Preifatrwydd

Er mwyn cadw mewn cysylltiad â phobl ac i asesu cynigion grantiau a gwneud dyfarniadau cyllido, mae angen i CIC Pen y Cymoedd gasglu gwybodaeth – nid yn unig am y gweithgareddau a'r prosiectau eu hunain ond hefyd am yr unigolion sy'n cyflwyno'r ceisiadau am grantiau. Mae ein Polisi yn nodi sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol honno. Ei nod yw bod yn agored, yn deg ac yn dryloyw, a diwallu gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (2016/679).

Byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch wrth i chi:

- Gofrestru ar ein Cronfa Ddata Cysylltiadau i gael diweddariadau am ein gweithgareddau a'n rhaglenni.
- Wneud cais am grant neu fenthyciad

Os yw unrhyw wybodaeth rydych wedi ei rhoi i ni yn newid unrhyw bryd, cofiwch ddweud wrthym a byddwn yn diwygio ein cofnodion.

1. Cronfa Ddata Cysylltiadau

Mae pobl ar ein rhestr bostio gyffredinol wedi rhoi eu cydsyniad i dderbyn diweddariadau cyffredinol. Mae eu henwau, teitlau swyddi a sefydliad gennym (os ydynt yn cynrychioli sefydliad) yn ogystal â chyfeiriadau post ac e-bost a rhifau ffôn. Os nad yw rhywun ar y rhestr am glywed gennym, gallant ddweud hynny wrthym unrhyw bryd.

2. Ceisiadau Grant a Benthyciadau

Byddwn yn casglu yr un wybodaeth bersonol sylfaenol. Efallai y byddwn yn rhannu peth o'r wybodaeth, neu'r holl wybodaeth, ag unigolion a sefydliadau rydym yn ymgynghori â hwy wrth asesu ceisiadau. Gallai'r sefydliadau hyn gynnwys y rhai sy'n cynnig cymorth a chynghor, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol. Rydym yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data.

Os ydych yn cynnwys gwybodaeth bersonol am drydydd parti (e.e. partneriaid darparu) fel rhan o'ch ceisiadau, mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych eu cydsyniad.

3. Pan ddyfernir Grant neu Fenthyciad

- *Gwiriadau dilysu*: er mwyn dilysu bod prif ymgeiswyr yn pwy maent yn ddweud ydynt, rydym yn holi am ddyddiad geni. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn gofyn hefyd, am rifau trwyddedau gyrru a dyddiad eu cyhoeddi, a/neu rifau pasbortau, ac enwau llawn cofrestredig. Caiff y wybodaeth hon ei dinistrio unwaith y cynhelir y gwiriadau. Eto, rydym yn sicrhau bod y sefydliadau sy'n ein cynorthwyo i wneud y gwiriadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data.

Os ydych yn rhoi gwybodaeth ffug neu anghywir yn eich cais neu ar unrhyw bryd yn ystod bywyd unrhyw gyllid a ddyfernir i chi ac y canfyddir twyll, byddwn yn rhoi manylion i asiantaethau atal twyll, er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian.

- *Cyfrifon Banc*: bydd angen manylion hefyd am gyfrifon banc grŵp, busnes neu unigolion at ddibenion talu grantiau neu fenthyciadau.
- *Monitro a Gwerthuso*: rydym yn debygol o rannu peth o'r wybodaeth, neu'r holl wybodaeth a roddir gennych i ni ag unigolion neu sefydliadau rydym yn gweithio gyda hwy i weinyddu a monitro canlyniadau ac effeithiau'r Gronfa Gymunedol. Eto, rydym yn sicrhau bod y sefydliadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data.

4. Sut rydym yn storio ac yn diogelu eich gwybodaeth

- *Electronig*: cedwir data ar liniaduron wedi'u hamgryptio a chyfrineiriau'n eu diogelu ac wedi eu cefnogi gan yriant caled allanol wedi'i amgryptio a'i storio mewn cwpwrdd o dan glo. Rydym yn defnyddio dulliau storio cwmwl Office 365, sy'n hysbysu tanysgrifwyr ar unwaith os canfyddir ymosodwyr seibr. Caiff negeseuon eu hamgryptio a'u diogelu.
- *Cronfa ddata Grantiau* – mae gan ein darparwr achrediad Safon Diogelwch Gwybodaeth ISO 27001 ac mae'n cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data
- *Copïau papur*: caiff ceisiadau a gwybodaeth gefndirol eu cadw mewn cabinet ffeilio yn swyddfa CIC, a gaiff eu cloi pan fydd y staff i ffwrdd.

5. Pa mor hir y cedwir eich gwybodaeth

Byddwn yn cadw manylion ceisiadau llwyddiannus ac aflwyddiannus tan 2041 – dros gyfnod y Gronfa. Mae hyn yn unol â chontract CIC gyda'n ariannydd, sef Vattenfall, y cwmni fferm wynt, a chontract Vattenfall gyda Gweinidogion Llywodraeth.

6. Newidiadau i'r Polisi hwn

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol. Caiff unrhyw newidiadau eu cyhoeddi'n glir ar ein gwefan a chaiff yr holl bobl y mae gennym ddata amdanynt eu hysbysu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau o gwbl am eich preifatrwydd neu'r Polisi hwn, cysylltwch â ni:

ymholiadau@penycymoeddcic.cymru / 01685 878785